



HYSBYSEB

Hyfforddwr Garddwriaethol

Tyfu'r Dyfodol yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

Bydd y prosiect Tyfu'r Dyfodol yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn darparu hyfforddiant a gwybodaeth am arddwriaeth i unigolion a grwpiau o gynulleidfaoedd amrywiol ledled Cymru. Mae hwn yn brosiect pum mlynedd sy'n cael ei gyllido trwy Raglen Cymunedau Gwledig-Datblygu Gwledig 2014-2020 Llywodraeth Cymru, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd. Mae Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn elusen eiconig a dynamig, sy'n ymrwymedig i ymchwil a chadwraeth o ran bioamrywiaeth, cynaliadwyedd, dysgu gydol oes a mwynhad ein hymwelwyr.

Bydd amrywiaeth eang o gyrsiau garddwriaethol a digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd ar gael i oedolion a phlant yng ngwerth gerddi ar gyfer tyfu bwyd, cadw'n heini a helpu'r amgylchedd. Byddwn hefyd yn arddangos amrywiaeth ac ansawdd cynnyrch garddwriaethol Cymru ac yn helpu i achub peillwyr Cymru. Bydd Tyfu'r Dyfodol yn cael ei leoli yn yr Ardd Fotaneg ac mewn cyfres o ganolfannau ledled Cymru.

Y Rôl: Hyfforddwr Garddwriaethol

Rydym yn chwilio am rywun brwdfrydig, egniol ac ysbrydoledig i ddatblygu a chyflwyno amrywiaeth o gyrsiau garddwriaethol a deunyddiau dysgu ar gyfer unigolion a grwpiau. Gallai'r rhain gynnwys oedolion, plant, cyrff cyhoeddus, a grwpiau cymunedol a chymdeithasol. Amcan y rôl yw ennyn diddordeb pobl mewn garddwriaeth a darparu hyfforddiant yng ngwerth gerddi ar gyfer tyfu bwyd, cadw'n heini a helpu'r amgylchedd. Mae hwn yn gyfle gwych i unigolyn sydd â gwybodaeth dechnegol dda am arddwriaeth, hanes profedig mewn hyfforddi, a diddordeb cryf yn iechyd a lles pobl eraill. Mae rhuglder mewn Cymraeg ysgrifenedig a llafar yn ddymunol iawn, ac mae dealltwriaeth o genhadaeth Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, ac ymrwymiad i'r genhadaeth honno, yn hanfodol.

MANYLION AMLINELLOL Y PENODIAD

Swydd lawn-amser yw hon, a fydd yn dechrau o'r dyddiad cynharaf y gellir ei drefnu. Yr oriau gwaith yw 37.5 awr yr wythnos, a fydd yn golygu gweithio pum niwrnod o bob saith, gan gynnwys rhai penwythnosau. Mae yna ofyniad i deithio yng Nghymru, i ymweld â sefydliadau partner. Mae'r cyflog hyd at £20,000 y flwyddyn, yn unol â chymwysterau a phrofiad. Contract tymor penodol yw hwn, a fydd yn dod i ben ar 30 Mehefin 2022.

Croesewir ymholiadau anffurfiol, a dylid eu cyfeirio at Gydgyssylltydd y Prosiect (Dr Ian Mugford – Ian.Mugford@gardenofwales.org.uk)

Dylai ceisiadau, ar ffurf llythyr eglurhaol a CV sy'n dangos yn glir y modd yr ydych yn bodloni'r meini prawf, ynghyd â manylion cyswllt llawn dau ganolwr, gael eu hanfon trwy e-bost at emma.grey@gardenofwales.org.uk erbyn 8 Chwefror 2019. Ar hyn o bryd mae'r cyfweiliadau wedi'u trefnu ar gyfer mis Chwefror 2019.



Hyfforddwr Garddwriaethol Tyfu'r Dyfodol yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

AMLINELLIAD O'R CEFNDIR

Mae Tyfu'r Dyfodol yn brosiect gwerth £2.3 miliwn a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru. Bydd y prosiect Tyfu'r Dyfodol yn cyflogi saith aelod o staff llawn-amser, ac yn cael ei gefnogi gan yr adrannau Gwyddoniaeth, Garddwriaeth, Addysg, Marchnata a Dehongli yn yr Ardd Fotaneg. Mae yna dri phrif faes o weithgareddau.

1. Gerddi ar gyfer iechyd a lles

Gall tyfu planhigion ar gyfer bwyd a hwyl helpu i'n cadw'n heini a gwella lles meddyliol a chorfforol. Mae gerddi hefyd yn gynefinoedd bywyd gwyllt pwysig ac maent yn darparu gwasanaethau hanfodol ar gyfer ecosystemau, er enghraifft amddiffyn rhag llifogydd a pheillio. Byddwn yn darparu hyfforddiant a digwyddiadau ymgysylltu ar gyfer oedolion a phlant yng ngwerth gerddi ar gyfer tyfu bwyd, cadw'n heini a helpu'r amgylchedd.

2. Dathlu garddwriaeth Cymru

O feithrinfeydd arbenigol sy'n cynhyrchu planhigion a blodau unigryw, i dyfwyr masnachol sy'n darparu'r ffrwythau a'r llysiau gorau. Byddwn yn arddangos amrywiaeth ac ansawdd cynnyrch garddwriaethol Cymru trwy gyfrwng gwyliau a digwyddiadau cyffrous.

3. Garddwriaeth ar gyfer y dyfodol

I sicrhau sector cynaliadwy, sy'n diogelu at y dyfodol, mae angen i arddwriaeth Cymru harneisio'r datblygiadau gwyddonol a thechnolegol diweddaraf. Byddwn yn creu rhwydweithiau rhwng gwyddoniaeth a garddwriaeth, ac yn defnyddio ymchwil arloesol yr Ardd Fotaneg ar blanhigion i beillwyr er mwyn creu marchnad newydd ar gyfer planhigion sy'n gyfeillgar i beillwyr ac sydd wedi'u cynhyrchu mewn modd cynaliadwy.

Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

A hithau'n ardd fotaneg gyntaf y mileniwm newydd, mae Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn ymestyn dros fwy na 568 erw yn Sir Gaerfyrddin wledig. Mae'n cynnwys yr Ardd Fotaneg a Gwarchodfa Natur Genedlaethol Waun Las, sy'n cael ei rheoli fel fferm organig. Mewn cwta 18 mlynedd yn unig, mae wedi dod yn fan o arwyddocâd rhyngwladol sydd wedi'i neilltuo i gadwraeth, garddwriaeth, gwyddoniaeth, addysg, hamdden a'r celfyddydau.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: <https://garddfotaneg.cymru/gwyddoniaeth/tyfu-r-dyfodol/>



Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru GARD D FOTANEG GENEDLAETHOL CYMRU

Swydd-ddisgrifiad

Teitl y Swydd	Hyfforddwr Garddwriaethol Tyfu'r Dyfodol
Adran	Tyfu'r Dyfodol
Yn adrodd i	Cydgysylltydd y Prosiect
Yn gyfrifol am reoli	Gwirfoddolwyr

Diben amlinellol y rôl: Hyfforddwr Garddwriaethol

Bydd yr Hyfforddwr Garddwriaethol yn gweithio ochr yn ochr â'n Hyfforddwr Garddwriaethol presennol a Thîm Addysg yr Ardd, a hynny i ddatblygu, cyflwyno a gwerthuso amrywiaeth o gyrsiau garddwriaethol, gyda'r nod o ennyn diddordeb pobl mewn garddwriaeth, a chyflwyno ei gwerth i iechyd, lles a'r amgylchedd. Bydd yr Hyfforddwr Garddwriaethol hefyd yn hanfodol yn y broses o gynllunio digwyddiadau a sioeau'r Prosiect a'u rhoi ar waith; yn gyfrifol am ofynion garddwriaethol; ac yn cefnogi Cydgysylltydd y Prosiect yn y gwaith o sicrhau bod canlyniadau'r Prosiect yn cael eu cyflawni.

Cyfrifoldebau

1. Datblygu amrywiaeth o gyrsiau garddwriaethol a deunyddiau dysgu. Trwy ddefnyddio egwyddorion garddwriaeth sy'n fodern, yn seiliedig ar wyddoniaeth ac yn gyfeillgar i fywyd gwyllt, datblygu cynnwys ar gyfer y cyrsiau sy'n ddiddorol, yn llawn gwybodaeth ac yn hygyrch i ddysgwyr.
2. Cyflwyno cyrsiau garddwriaethol yn yr Ardd Fotaneg, yn ogystal ag ar y cyd â sefydliadau partner ledled Cymru. Trwytho ac ysbrydoli gwerthfawrogiad o arddwriaeth, gan annog datblygiad mewn gwybodaeth a sgiliau ymarferol, fel ei gilydd.
3. Rhoi system werthuso ar waith ar gyfer asesu pob cwrs a gyflwynir. Defnyddio a chyfathrebu canlyniadau gwerthusiadau i lywio'r gwaith o ddatblygu cyrsiau yn y dyfodol.
4. Cynorthwyo gyda'r gwaith o gynllunio digwyddiadau a sioeau a gynhelir gan y prosiect Tyfu'r Dyfodol, a'u rhoi ar waith.
5. Cydweithredu â'n Hyfforddwr Garddwriaethol presennol i reoli a chynnal Gardd Tyfu'r Dyfodol, y cyfleusterau addysgu, y cyfarpar a'r deunyddiau planhigion sy'n ofynnol ar gyfer addysgu.
6. Cefnogi Cydgysylltydd y Prosiect i sicrhau bod canlyniadau'r Prosiect yn cael eu cyflawni, a bod pob cwrs a digwyddiad cyhoeddus yn cael eu cynnal yn llwyddiannus.
7. Cydweithio â rhanddeiliaid, partneriaid, cyfranogwyr, aelodau'r tîm ac uwch-reolwyr i adeiladu proffil a llwyddiant cadarnhaol y Prosiect.
8. Cyfrannu at unrhyw weithgareddau neu ddyletswyddau sy'n cefnogi a hyrwyddo'r Ardd Fotaneg a'i chenhadaeth.
9. Unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill.



MANYLEB Y PERSON

- Isod gwelir y meini prawf a ystyrir yn angenrheidiol i gyflawni'r rôl.
- Mae'r wybodaeth hon ar gael yn agored i ymgeiswyr, a bydd yn sail i'r broses recriwtio a dethol.
- Dim ond yr ymgeiswyr hynny sy'n bodloni'r meini prawf hyn mewn modd digonol a fydd yn cael eu hystyried.

	Meini Prawf Hanfodol
1	Wedi cael addysg i lefel gradd neu gyfwerth mewn disgyblaeth berthnasol. Yn ddefnyddol, ffocws ar arddwriaeth, STEM neu addysg.
2	Yn meddu ar brofiad o ddatblygu, trefnu, cyflwyno a gwerthuso cyrsiau hyfforddi mewn garddwriaeth.
3	Yn meddu ar sgiliau cyflwyno rhagorol, gyda'r gallu i deilwra'r ddarpariaeth i amrywiaeth o gynulleidfaoedd ac i newid rhaglenni i weddu i'r gynulleidfa.
4	Yn meddu ar lefel dda o lythrennedd TG, sy'n cynnwys cymhwysedd yn y defnydd o gymwysiadau Microsoft Office a rhith-amgylcheddau dysgu.
5	Yn amlygu sgiliau sefydliadol cryf, sy'n cynnwys cadw cofnodion, cynllunio a rheoli amser.
6	Yn meddu ar brofiad o arwain, trefnu a recriwtio gwirfoddolwyr.
7	Yn meddu ar gymhwysedd mewn materion lechyd a Diogelwch sy'n berthnasol i weithrediadau ac addysgu ym maes garddwriaeth.
8	Yn meddu ar ymroddiad gwirioneddol i genhadaeth a diben yr Ardd, ynghyd â brwdfrydedd i gyfrannu at ei llwyddiant, at ysbryd y tîm, ac at enw da ac ethos yr Ardd.
9	Yn meddu ar Drwydded Yrru gyfredol a dilys y Deyrnas Unedig.
	Meini Prawf Dymunol
10	Yn meddu ar brofiad o gyflwyno gweithgareddau i grwpiau, gan gynnwys cyrff cyhoeddus, grwpiau cymunedol a chymdeithasol, ysgolion a grwpiau heb lifrai.
11	Rhuglder mewn Cymraeg ysgrifenedig a llafar, yn ogystal ag ymrwymiad i bobl, iaith a diwylliant Cymru.
12	Diddordeb mewn defnyddio technoleg a chyfryngau newydd i hwyluso a gwella dysgu.